# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 26 Medi 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

## 89(v3)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Addysg yng Nghymru: Ein Cenhadaeth Genedlaethol - Cynllun Gweithredu 2017-2021

(45 munud)

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Cynigion Trafnidiaeth ar gyfer Glannau Dyfrdwy

(45 munud)

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Cynllun Cyflawni ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol 2017-2020

(45 munud)

**Dogfen ategol**

Cynllun cyflawni ar gyfer clefydau niwrolegol

## 6 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig: Ynni

(30 munud)

## 7 Dadl: Data - Bod yn fwy agored a hygyrch

(60 munud)

**NDM6507** **Jane Hutt (Bro Morgannwg):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddata agored yn sgil cyhoeddi ein Cynllun Data Agored cyntaf erioed a'i weithredu'n barhaus.

2. Yn nodi'r cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru hyd yma, ynghyd â chynlluniau parhaus i wneud data yn fwy agored a sicrhau eu bod yn fwy hygyrch.

3. Yn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i dynnu ar bwerau deddfwriaethol i ddatblygu canllawiau sy'n annog pob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wneud mwy o ddefnydd o ddata agored ac i gyhoeddi mwy.

4. Yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru i addasu prosesau ar gyfer caffael nwyddau neu wasanaethau i hyrwyddo bod yn agored a thryloyw.

Cynllun Data Agored

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda sefydliadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector i wella prosesau rhannu data a lleihau dyblygu yn y broses o gasglu data ledled Cymru.

**Gwelliant 2.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod rôl Llywodraeth Cymru yn y broses o gydweithio â rhanddeiliaid a chyrff allweddol i sicrhau bod casglu data yn canolbwyntio ar gael y wybodaeth gywir i ddylanwadu ar newidiadau cadarnhaol mewn polisi a'u cyflawni.

**Gwelliant 3.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai Llywodraeth Cymru weithio i sicrhau bod awdurdodau lleol yn dilyn yr esiampl a osodir gan Gyngor Sir Fynwy a reolir gan y Ceidwadwyr drwy gyhoeddi ei holl wariant.

**Gwelliant 4.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid casglu data perfformiad a'i gyhoeddi mewn modd sy'n galluogi cymariaethau â gwledydd eraill yn y DU.

## 8 Cyfnod Pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 27 Medi 2017